Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Tŷ Cariad

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/04/2015**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol yn gweithredu mewn cartref bach i blant a agorwyd yn Hydref 2013. Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn tŷ modern ar ei ben ei hun mewn lleoliad gwledig yn ne Sir Benfro. Mae'r adeiladau mewn cyflwr da iawn drwyddi draw. Mae un ystafell wedi'i neilltuo yn ystafell ddosbarth ddynodedig briodol. Mae gardd helaeth ac ychydig o aceri o gaeau gwyrdd o amgylch y tŷ.

Pan agorwyd yr ysgol, roedd y perchennog/pennaeth, sy'n athrawes gymwys a phrofiadol, yn cyflwyno addysg ei hun. Er Ionawr 2014, mae hi wedi cyflogi athrawes ar gyfer hyn. Fodd bynnag, gwnaed ychydig o newidiadau o ran staff er Ionawr 2014. Yng Ngorffennaf 2014, pan ymwelodd Estyn â'r ysgol ddiwethaf, roedd athrawes lanw yn cael ei chyflogi. Roedd gan yr athrawes lanw wybodaeth gyfyngedig am ddysgu a chyflawniad blaenorol disgyblion i lywio ei chynllunio. O ganlyniad, ar yr adeg honno, ni lwyddodd yr ysgol i fodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae tîm y staff yn fwy sefydlog erbyn hyn. Ymunodd athrawes brofiadol amser llawn â'r ysgol yn Nhachwedd 2014 ar gontract parhaol. Ymunodd y rheolwr gofal preswyl presennol â'r tîm fel rheolwr gofal preswyl dros dro yn Ionawr 2014 ac fe gafodd ei chofrestru gydag AGGCC i gadarnhau ei swydd yn Hydref 2014.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- Cafwyd cynnydd da ar y cyfan o ran bodloni argymhellion Estyn yn yr arolygiad diwethaf. Mae hyn oherwydd bod yr ysgol wedi penodi athrawes amser llawn barhaol sydd wedi mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad. Yn ychwanegol, mae sefydlogrwydd yn y tîm gofal.
- Mae'r cynllunio yn rhoi ystod eang o gyfleoedd cyffrous i ddisgyblion sy'n eu helpu i ymgysylltu'n dda mewn dysgu a datblygu eu medrau bywyd yn briodol. Er enghraifft, maent yn dysgu am siopa wrth brynu pren y maent yn ei ddefnyddio i adeiladu man caeedig ar gyfer ieir.
- Mae gan staff a disgyblion berthynas waith dda iawn sy'n helpu i ddatblygu hyder disgyblion a chefnogi eu lles cyffredinol.
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac maent yn canolbwyntio'n dda ar y tasgau. Maent yn dechrau trafod eu cynnydd yn effeithiol gyda staff ar ddiwedd y wers.
- Mae digon o adnoddau yn yr ysgol, sy'n cynnwys llyfrau ac offer o ansawdd da.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Oherwydd newidiadau o ran staff, megis dechrau datblygu y mae'r ysgol o hyd. Nid oes system hunanarfarnu i helpu'r ysgol i nodi meysydd i'w gwella. Mae'r perchennog yn monitro gwaith yr ysgol yn anffurfiol ond nid yw bob amser yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'i gwaith nac o adborth i'r athrawes.
- Yn y misoedd diwethaf, mae disgyblion wedi cwblhau ystod dda o waith amrywiol. Fodd bynnag, nid yw eu gwaith wedi'i drefnu'n gronolegol neu'n dda bob amser.
- Mae'r ysgol wedi datblygu ychydig o gysylltiadau lleol i gynnig profiad addas o fyd gwaith i ddisgyblion ar eu lefel eu hunain. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei gynllunio y mae hyn.
- Er bod yr ysgol yn cynnal cofnod o asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau, caiff y rhain eu llofnodi gan yr athrawes yn unig ac ni chânt eu cymeradwyo na'u llofnodi gan ail unigolyn cyfrifol.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Ddatblygu system hunanarfarnu ysgol sy'n cynnwys monitro'r cynllunio a'r ffordd y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno yn effeithiol

A2 Datblygu system ffurfiol ar gyfer arsylwadau gwersi a rhoi adborth ysgrifenedig i staff

A3 Sicrhau bod gwaith ysgrifenedig disgyblion yn cael ei drefnu fel bod cofnod clir o'u cyflawniad a'u cynnydd

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cael profiad addas o fyd gwaith i'w helpu i ddatblygu eu medrau bywyd a'u hannibyniaeth

A5 Gwella'r ffordd y caiff asesiadau risg eu cofnodi ar gyfer gweithgareddau'r ysgol trwy sicrhau bod ail unigolyn cyfrifol yn llofnodi ei fod/bod yn cymeradwyo'r gweithgaredd

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Cymryd camau i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi datblygu polisi cwricwlwm priodol sy'n seiliedig ar gynllun gwaith 'Equals' yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA) ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu. Y nodau sy'n cael eu datgan yn y polisi yw darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu ar draws cwricwlwm 'diwrnod effro' ar gyfer disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Mae'n rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu medrau cyfathrebu, annibyniaeth a medrau personol a chymdeithasol disgyblion, yn ogystal â darpariaeth academaidd. Mae amserlenni disgyblion yn dangos eu bod yn dilyn rhaglen sy'n briodol i'w hanghenion. [1(2)]

Caiff ffeiliau cofnod disgyblion eu cynnal yn drefnus. Mae'r rhain yn cynnwys copïau o'r amcanion yn eu datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol yn defnyddio'r rhain yn briodol i ddatblygu cynlluniau addysg unigol (CAU) disgyblion a chynllunio'r cwricwlwm. [1(2b)]

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cynllun gwaith addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd. Fel rhan o hyn, mae disgyblion yn dysgu am ymwybyddiaeth o'r corff a sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. [1(2f)]

Mae ffeiliau cofnod disgyblion yn cadarnhau bod gan yr athrawes newydd ddealltwriaeth dda o ddoniau, anghenion a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion, ac mae'n ystyried y rhain wrth gynllunio gwersi. [1(3d)]

Yn Nhachwedd 2014, cynhaliodd yr athrawes newydd asesiad gwaelodlin o ddisgyblion i sefydlu eu hanghenion dysgu unigol. Lluniodd grynodebau manwl o lefelau medrau disgyblion ar gyfer eu ffeiliau cofnod. Fe wnaeth y crynodebau hyn ddarparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer cynllunio'r camau nesaf. Mae gan bob disgybl CAU manwl sy'n nodi targedau penodol a mesuradwy priodol. [1(3g)]

**Argymhelliad 2: Rheoleiddio staffio er mwyn sicrhau nad yw newid yn amharu ar addysg disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Dechreuodd athro amser llawn ar swydd barhaol yn Nhachwedd 2014. Mae ganddo brofiad o addysgu disgyblion ac athrawon ag anghenion addysgol arbennig yn y gorffennol. Ers ei benodi, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion Estyn o'r arolygiad yng Ngorffennaf 2014. Yn ychwanegol, mae'r rheolwr gofal preswyl wedi'i benodi'n barhaol erbyn hyn ac ychydig iawn o newidiadau a wnaed yn nhîm y staff gofal.

**Argymhelliad 3: Monitro cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn fwy effeithiol**
Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r perchennog yn monitro gwaith yr ysgol trwy arsylwi gwersi, siarad â staff a disgyblion, ac edrych ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cofnod ffurfiol o'r arferion hyn i roi gwybodaeth i staff am y modd y gall yr ysgol wella.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod rhediad gwersi yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i fodloni anghenion gwahanol disgyblion unigol. Caiff yr addysgu ei addasu'n dda i ystyried galluoedd disgyblion a'r arddulliau dysgu y maent yn eu ffafrio. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod ac yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Er enghraifft, mae disgyblion mwy abl yn dysgu dweud yr amser gan ddefnyddio arddangosfeydd analog a digidol cyn trosglwyddo'r wybodaeth hon i sefyllfaoedd bywyd go iawn fel darllen amserlen trenau.

**Argymhelliad 5: Parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau ar gyrsiau achrededig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae polisi'r ysgol ar y cwricwlwm yn darparu manylion am y cyrsiau achrededig a gynigir gan yr ysgol. Mae'r rhain wedi'u seilio yn bennaf ar gynllun Dyfarniad ASDAN. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth ar gyfer cyrsiau lefel Mynediad a TGAU i ddisgyblion mwy abl. Caiff disgyblion gyfleoedd i ennill dyfarniad amgylcheddol ardystiedig hefyd.

Mae disgyblion cyfredol yn gweithio tuag at ddyfarniadau lefel Mynediad mewn llythrennedd a rhifedd ac maent yn gweithio ar lefelau sy'n briodol i'w hanghenion unigol.

Er bod yr ysgol wedi cyflwyno cyrsiau achrededig priodol, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Cariad |
| **Rhif yr ysgol** | 668 6019 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 05/02/2015 |
| **Perchennog** | United Care in Wales |
| **Staff** | 1 athro amser llawn sydd â SAC.<br>Staff cartref plant: rheolwr gofal preswyl;<br>dirprwy reolwr gofal preswyl; 5 aelod o staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i dderbyn hyd at 3 o fechgyn neu ferched 11 – 18 oed |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â chartref plant |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA) a/neu anhwylderau dysgu difrifol. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Amherthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 07/07/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/07/2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Rosemary Lait | Arolygydd Cofnodol |
| Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |